WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

8 Chwefror 2011

**Awduron: Simon Edge a Patrick Spillane** **Cyf: 125A2011**

# Adolygiad o ymddygiad cyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mr Jeremy Colman, yn ei swydd

# **Swyddfa Archwilio Cymru**

### Archwiliad Mewnol

Gwasanaeth arfarnu annibynnol yw Archwiliad Mewnol yn Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gweithredu fel gwasanaeth i reolwyr drwy fesur a gwerthuso effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'n gwneud hynny drwy roi sicrwydd i'r Archwilydd Cyffredinol bod y systemau rheolaeth fewnol yn ddigonol, effeithiol a dibynadwy. Mae Archwiliad Mewnol hefyd yn helpu rheolwyr drwy werthuso a rhoi adroddiadau ar elfennau o'r system rheolaeth fewnol y maent yn gyfrifol amdanynt.

Paratoir adroddiadau Archwiliad Mewnol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u cyfeirir at swyddogion gan gynnwys y swyddog cyfrifyddu dynodedig a chânt eu copïo i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg/Archwiliad Allanol. Fe'u paratoir yn unswydd at ddefnydd Swyddfa Archwilio Cymru, ac o ganlyniad nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am unrhyw barti arall.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Cefndir | 6 |
| Yr adolygiad hwn | 8 |
| Ni chanfuwyd unrhyw faterion pellach o ran ymddygiad Mr Colman a ddylai fod wedi cael eu cyfeirio at yr heddlu | 10 |
| Roedd cyfraniad Mr Colman i adroddiadau archwilio ac astudiaethau cenedlaethol a'i ddylanwad arnynt yn briodol. Roedd barn archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn gadarn ac roedd ei gyfraniad i archwiliadau o berfformiad yn fuddiol - ystyriwyd bod ei gyfraniad a'i ddylanwad yn atgyfnerthu'r broses adrodd | 11 |
| Roedd gan Mr Colman drefniadau llywodraethu priodol ar waith yr oedd yn eu hyrwyddo. Fodd bynnag, ni osododd Mr Colman reolaethau'n gyson ac ar adegau gwnaeth wyro oddi wrthynt | 12 |
| Canfuwyd enghreifftiau gennym lle yr anwybyddodd Mr Colman drefniadau rheoli cytûn a mabwysiedig a methodd mewn rhai o'i gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu ar ran Swyddfa Archwilio Cymru | 14 |
| Materion eraill sy'n codi | 20 |
| Argymhellion | 22 |
| **Atodiadau** | |
| Cylch Gorchwyl a Chwmpas yr Adolygiad | 24 |
| Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 30 |

## Clirio yr adroddiad hwn

Cyflwynir yr adroddiad Archwilio Mewnol hwn i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn cyflwyno canfyddiadau'r adroddiad i'r Archwilydd Cyffredinol cawsant eu hadolygu gan Bwyllgor Gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Gwnaed ymdrech i glirio rhannau perthnasol o destun yr adroddiad hwn gydag unigolion priodol, yn benodol Mr Colman a roddodd ei sylwadau ar yr adroddiad drafft cyfan. Ni chafodd Mr Colman ei gyfweld fel rhan o'r adolygiad oherwydd bod ei amodau mechnïaeth yn ei atal rhag cysylltu â staff Swyddfa Archwilio Cymru, ac am ei fod wedi'i garcharu'n ddiweddarach. Mae Mr Colman ac eraill wedi darparu sylwadau ysgrifenedig yn nodi ble y maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r ffeithiau a'r dehongliad ohonynt. Ystyriwyd y sylwadau hyn ac addaswyd y testun lle roedd yn berthnasol ac yn rhesymol i wneud hynny.

Mae Mr Colman wedi herio geiriad drafft a gadwyd yn y fersiwn terfynol hwn o'r adroddiad; yn benodol iddo 'fethu' mewn rhai o'i gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu, ac iddo mewn rhai achosion weithredu yn 'amhriodol' wrth reoli Swyddfa Archwilio Cymru, ac iddo 'wyro' oddi wrth drefniadau rheoli Swyddfa Archwilio Cymru. Haera Mr Colman nad oedd ei ymddygiad cyfan wedi ei nodweddu gan yr enghreifftiau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad. Er mwyn bod yn gytbwys rydym wedi cynnwys nifer o sylwadau Mr Colman yn yr adroddiad.

## Rhagair

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau allweddol yr adolygiad o ymddygiad Mr Jeremy Colman, sef cyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) pan oedd yn ei swydd, drwy gyfeirio at y cwestiwn:

   **A wnaeth Mr Colman, tra bu'n Archwilydd Cyffredinol Cymru, gamymddwyn mewn unrhyw ffordd (heblaw'r hyn a bennwyd gan y llysoedd) a wnaeth ei atal rhag cyflawni ei swyddogaethau yn briodol neu a wnaeth ddwyn anfri ar y swydd?**

2. Dilynodd yr adolygiad gamau gweithredu gan staff Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â threfniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, a gwaith ar y cyd â swyddogion o Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, a arweiniodd at ymddiswyddiad Mr Colman ar 3 Chwefror 2010. Mynegodd Swyddfa Archwilio Cymru ei phryderon hefyd am ymddygiad Mr Colman wrth yr heddlu er mwyn iddynt ymchwilio iddo.

3. Diben yr adolygiad oedd darparu sicrwydd nad oedd unrhyw gamymddwyn pellach o bwys na methiannau cysylltiedig o ran y broses fusnes yn gysylltiedig â chyfnod Mr Colman yn ei swydd yr oedd angen mynd i'r afael â hwy, neu os oedd materion o'r fath yn bodoli, i'w nodi fel y gellid cymryd camau priodol. Yn y cyd-destun hwn ystyr 'camymddwyn' yw ymddygiad sy'n anghyson â disgwyliadau rhesymol ymddygiad gan uwch was sifil. Rydym wedi mireinio yr ystyr ymhellach i wahaniaethu rhwng: (i) materion a fyddai'n arwain at gamau troseddol pellach neu gamau eraill yn erbyn Mr Colman, (ii) methu â chyflawni cyfrifoldeb yn briodol, a (iii) materion ynghylch barn amhriodol neu wael.

4. Parhaodd yr adolygiad o fis Chwefror 2010 nes i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2011. Roedd gan y cylch gorchwyl (Atodiad 1) ddyddiad cwblhau amcangyfrifedig o fis Medi 2010. Fel y digwyddodd, roeddem yn gallu briffio'r Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ar lafar yn llawn ar ein canfyddiadau ym mis Gorffennaf 2010 pan oedd yr adolygiad i raddau helaeth yn gyflawn. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal ymchwiliadau amrywiol ar wahân i faterion penodol sydd wedi codi yn dilyn hyn (e.e. cwestiynau gan aelodau o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth ynghylch awdurdodi treuliau hyfforddi). Adolygwyd y materion hyn a chyflwynwyd adroddiad arall arnynt. Lle mae materion o'r fath yn berthnasol i'r cwestiwn a nodir ym mharagraff 1 uchod, rydym wedi cyfeirio atynt yn yr adroddiad hwn. Er bod y wybodaeth ychwanegol hon wedi dyfnhau ein dealltwriaeth o ddulliau gwaith Mr Colman nid ydym wedi newid ein canfyddiadau allweddol ynghylch ei ymddygiad pan oedd yn ei swydd, sef:

**Roedd cyfraniad Mr Colman at waith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru yn briodol ac yn fuddiol. Ni chanfuwyd materion pellach gennym yn ymwneud ag ymddygiad Mr Colman y dylid eu cyfeirio at yr heddlu nac a ddylai arwain at gymryd camau pellach yn erbyn Mr Colman. Fodd bynnag, rydym wedi nodi materion lle y methodd Mr Colman mewn rhai o'i gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu, ac mewn rhai achosion gweithredodd yn amhriodol wrth reoli Swyddfa Archwilio Cymru, drwy wyro oddi wrth drefniadau rheoli Swyddfa Archwilio Cymru. Bwriedir i'r argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad hwn helpu i osgoi unrhyw broblemau o'r fath rhag codi eto.**

5. Er ei fod yn hwyrach na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol, penderfynwyd ar amseriad cyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn lleihau'r risg o beryglu'r broses cyfiawnder troseddol, ac er mwyn sicrhau bod amser priodol i ymgynghori â'r bobl berthnasol. Fodd bynnag, darparwyd sesiynau briffio ar lafar yn barhaus i'r Archwilydd Cyffredinol dros dro a'r Archwilydd Cyffredinol newydd, Pwyllgor Gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, ac i Gadeirydd ac aelodau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

6. Mae'r briffiadau wedi sicrhau gwelliannau i drefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru gan yr Archwilydd Cyffredinol newydd ac wedi bod yn sail iddynt. Cynllunnir y trefniadau newydd er mwyn sicrhau na fydd y methiannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn ac sy'n gysylltiedig â thymor Mr Colman yn ei swydd yn codi eto.

7. Ein casgliad yw mai dull rheoli Mr Colman oedd yn gyfrifol am ei fethiannau fel Swyddog Cyfrifyddu, a'i reolaeth o Swyddfa Archwilio Cymru, gan na allai gyfathrebu'n agored nac yn gyson â rheolwyr ac na allai lynu wrth y prosesau rheoli a oedd ar waith yn Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ei rôl fel Archwilydd Cyffredinol, ymddengys bod Mr Colman wedi canolbwyntio ar ei annibyniaeth fel rheoleiddiwr archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac nad oedd wedi gwerthfawrogi ei atebolrwydd yn ddigonol yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac nad oedd ychwaith wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r fframwaith o drefniadau llywodraethu mewnol ac allanol a oedd yn gymwys i'w swydd. Yn hyn o beth roedd wedi gwyro oddi wrth y safonau a oedd yn ddisgwyliedig ganddo (gweler Atodiad 2). Rydym wedi cadarnhau bod Mr Colman weithiau wedi gwyro oddi wrth reolaethau a phrosesau ac nad oedd bob amser yn agored gyda'i Bwyllgor Rheoli/Gweithredol, ei uwch aelodau o staff na'i Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Drwy beidio â rhoi gwybodaeth, neu drwy roi gwybodaeth yn rhannol neu mewn ffordd ddethol, nid oedd bob amser yn caniatáu iddynt gyfrannu'n ystyrlon at y broses o wneud penderfyniadau, lle roedd eu rolau a threfniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru yn ôl pob tebyg yn rhoi hawl iddynt wneud hynny.

8. Mae'r mater yn codi: sut y gellir dwyn yr Archwilydd Cyffredinol i gyfrif yn ddigonol am ei gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu a'i reolaeth dros Swyddfa Archwilio Cymru, gan sicrhau ar yr un pryd ei annibyniaeth o ran archwilio gweithredol sy'n hanfodol er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol allu cyflawni ei ddiben er budd pobl Cymru?

9. Rydym wedi gwneud argymhellion y bwriedir iddynt fynd i'r afael ag atebolrwydd, a gwella trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys eu cymhwyso at gamau gweithredu'r Archwilydd Cyffredinol. Mae ein hargymhellion yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol y materion a nodwyd gennym yn hytrach na manylion pob mater unigol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol newydd wedi derbyn ein holl argymhellion a bydd ei gynigion llywodraethu, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Hydref 2010, yn mynd i'r afael â nifer ohonynt.

10. Nodwn fod yr Archwilydd Cyffredinol newydd hefyd wedi cytuno i weithredu'r holl argymhellion sydd o fewn ei reolaeth o:

- yr adroddiad Archwiliad Mewnol ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru a'r trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â hwy;
- yr adroddiad Archwiliad Mewnol ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru a'r trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â hwy;
- yr adroddiad Archwiliad Mewnol ar drefniadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer ‘gwaith yn mynd rhagddo’.

11. Bydd camau gweithredu ar yr argymhellion uchod yn sicrhau gwelliannau eang a sylfaenol yn y ffordd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal busnes.

12. Deallwn fod yr Archwilydd Cyffredinol newydd yn bwriadu cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

# Cefndir

13. Bu Mr Jeremy Colman yn Archwilydd Cyffredinol o 1 Ebrill 2005 ac ymddiswyddodd ar 3 Chwefror 2010. Fel yr Archwilydd Cyffredinol, roedd gan Mr Colman swyddogaethau statudol, yr oedd yn eu hymarfer ei hunan neu drwy ei staff a chontractwyr fel yr awdurdodwyd ganddo. Mae Swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gorfforaeth undyn, a benodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Yn gyffredin â phob math arall o gorfforaeth undyn[1], mae'r statws hwn yn cyfyngu ar atebolrwydd deiliad y swydd ac yn diogelu parhad y swydd. Mae annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn deillio o ddull penodi a diswyddo'r deiliad a darpariaethau paragraff 3 i Atodlen 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rhoddir pwerau eang i ddeiliad y swydd. Nodir prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol (pwerau a dyletswyddau) yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Llywodraeth Cymru 1999, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae ganddo bwerau hefyd sy'n atodol at y rhai amlwg yn y ddeddfwriaeth honno, a dyletswyddau statudol eraill amrywiol, megis y rhai a ddarperir gan ddeddfwriaeth cyflogaeth, a dyletswyddau cyfraith gyffredin.

[1]Mae cyrff eraill a nodir fel corfforaethau undyn yn eu deddfwriaeth sefydliadol yn cynnwys: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Comisiynydd Plant Cymru; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a Chomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

14. Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru. Fel y cyfryw mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r Senedd yn y pen draw, am y defnydd o'i adnoddau. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei diffinio yn ôl statud fel yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol (er y cyfeirir ati wrth ei henw mewn deddfwriaeth) a rhoddir yr holl bwerau cyfreithiol, hawliau a dyletswyddau i'r Archwilydd Cyffredinol.

15. Gyda'r pwerau eang hyn sy'n gysylltiedig â swydd gyhoeddus, a chyfrifoldeb Swyddog Cyfrifyddu, daw'r angen am atebolrwydd. Drwy ddatganiadau amrywiol a thrwy fabwysiadu dogfennau polisi Swyddfa Archwilio Cymru cytunodd Mr Colman i ufuddhau i'r saith 'egwyddor bywyd cyhoeddus' a gyhoeddir gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Anhunanoldeb, Cywirdeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Bod yn Agored, Gonestrwydd ac Arweinyddiaeth). Fel arwydd o hyn, cytunodd Mr Colman i gydymffurfio â threfniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru a gwnaeth rhoi llawer ohonynt ar waith. Roedd y fframwaith llywodraethu yn cynnwys rhwydwaith o elfennau allanol a mewnol:

- deddfwriaeth berthnasol;
- gofynion a bennir gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Pwyllgor Archwilio gynt) y Cynulliad Cenedlaethol (gweler isod) o ran dyletswyddau Swyddog Cyfrifyddu yn unol â deddfwriaeth;
- archwiliad allanol (gan archwilwyr a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol ac sy'n atebol iddo) yn unol â deddfwriaeth;
- Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (yn cynnwys aelodau anweithredol yn unig
- trefniadau i uwch aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru gymryd rhan yn y gwaith o reoli Swyddfa Archwilio Cymru - y Pwyllgor Gweithredol (Rheoli gynt);
- Rheolaethau Cyllid a Gwasanaethau Busnes;
- y swyddogaeth Gydymffurfio (gan gynnwys Archwiliad Mewnol a Rheoli Risg).

16. Yn ei sylwadau ar baragraff 15 mae Mr Colman yn gwahaniaethu rhwng y fframwaith allanol a'r trefniadau mewnol gan nodi mai eu hunig sail yw cefnogi Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn ffyrdd sy'n gyfleus iddo ef.

17. Yn unol â deddfwriaeth, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar y pryd at Mr Colman yn nodi ei gyfrifoldebau fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Nododd y llythyr dyddiedig 28 Chwefror 2008 (Atodiad 2), sy'n diweddaru llythyr cynharach dyddiedig 26 Ebrill 2005, gyfrifoldebau personol Mr Colman fel yr Archwilydd Cyffredinol am drefnu, rheoli a staffio Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol ac am ei gweithdrefnau mewn perthynas â materion ariannol a materion eraill.

18. Profwyd un agwedd ar drefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, yn dilyn ymchwiliad mewnol i ddatgeliad a wnaed gan Mr Colman. Mynegodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a Phartner Cydymffurfio Swyddfa Archwilio Cymru bryderon ynghylch ymddygiad personol Mr Colman wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y pryd (drwy Brif Weithredwr Comisiwn y Cynulliad) ar 26 Ionawr 2010 ac wrth yr heddlu ar 2 Chwefror 2010. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ar 3 Chwefror 2010, fod Mr Colman wedi ymddiswyddo o'i Swydd fel Archwilydd Cyffredinol. Cydweithredodd staff Swyddfa Archwilio Cymru yn llawn ag ymholiadau'r heddlu a chyda'r gweithrediadau cyfreithiol dilynol. Ar 19 Tachwedd 2010 dedfrydwyd Mr Colman i garchar am wyth mis am feddu ar ffotograffau anweddus o blant ac am wneud ffotograffau anweddus o blant - troseddau y plediodd yn euog iddynt - ac fe'i gorchmynnwyd i gofrestru fel troseddwr rhyw am gyfnod o 10 mlynedd.

## Yr adolygiad hwn

19. Ym mis Chwefror 2010, comisiynodd yr Archwilydd Cyffredinol dros dro Bartner Cydymffurfio Swyddfa Archwilio Cymru i gynnal adolygiad i bennu'r cwestiwn a nodir ym mharagraff 1 o'r adroddiad hwn. Roedd y cais hwn am adolygiad 'diwydrwydd dyladwy' yn gam gweithredu cyfrifol o dan yr amgylchiadau ac nid oedd o ganlyniad i unrhyw honiadau penodol. Mae'r adolygiad wedi cynnwys:

- Cyfweliadau:
  - 26 aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru (pob Partner, Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth, yn ogystal â'r aelodau staff hynny a weithiodd yn agos gyda Mr Colman naill ai o ddydd i ddydd neu ar brosiectau penodol);
  - pedwar aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ôl eu cais hwy (a oedd wedi eu cynnwys yn y 26 uchod);
  - 17 enw cyswllt allanol, gan gynnwys cwmnïau o gyfrifwyr, contractwyr a chynrychiolwyr undebau llafur.
- Dadansoddiad allweddair o'r holl negeseuon e-bost a oedd wedi'u cadw a anfonwyd at Mr Colman ac a anfonwyd ganddo, gan gynnwys pynciau chwilio yn ymwneud â threuliau, sylwadau difrïol, a dylanwad amhriodol.
- Ymchwiliadau yn canolbwyntio ar y cyfnod pan godwyd pryderon gan staff Swyddfa Archwilio Cymru neu gontractwyr allanol, yn ystod yr adolygiad, am ymddygiad personol Mr Colman:
  - Treuliau Mr Colman. Y cyfan ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10, ynghyd â sampl o 2008-09, 2007-08, 2006-07 a 2005-06 (a ehangwyd yn ôl yr angen).
  - Cyfriflenni cardiau prynu Swyddfa Archwilio Cymru Mr Colman. Y cyfan ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10, ynghyd â sampl o 2008-09 (a ehangwyd yn ôl yr angen).
  - Adolygiadau o gostau gwestai Mr Colman. Rheolir archebion gwestai yn ganolog. Adolygwyd sampl o archebion a chawsant eu croesgyfeirio at dreuliau a chyfriflenni cardiau prynu ar gyfer

blynyddoedd ariannol 2009-10 a 2008-09 gyda'r opsiwn i ymestyn y sampl os ystyriwyd bod hynny'n briodol

- Adolygiadau o gontractau. Chwe chontract yr oedd Mr Colman wedi bod â chysylltiad agos â hwy yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol rhwng 2007 a 2010.
- Gweithio ar y cyd â nifer o ymchwiliadau eraill a gwaith arall a oedd yn ategu neu'n torri ar draws cylch gorchwyl yr adolygiad:
  - ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan gynnwys ceisiadau am dreuliau, hawliadau teithio a chostau hyfforddi Mr Colman a rhai'r cyn-Brif Swyddog Gweithredu,
  - ceisiadau gan y cyfryngau am wybodaeth neu sylwadau o ran datgeliadau Rhyddid Gwybodaeth ac o ran dull Swyddfa Archwilio Cymru o reoli cydnabyddiaeth incwm;
  - adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru o 2005 i 2010;
  - adolygiad Archwiliad Mewnol o gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2009-10;
  - gwaith Archwiliad Mewnol ar 'waith ar droed'.

20. Ni roddwyd unrhyw gyfyngiadau ar yr adolygiad gan yr Archwilydd Cyffredinol dros dro na'r un newydd ac ni wrthododd unrhyw un y gofynnwyd iddynt am gyfweliad.

21. Nod yr adolygiad hwn oedd ateb y cwestiwn:

**A wnaeth Mr Colman, tra bu'n Archwilydd Cyffredinol Cymru, gamymddwyn mewn unrhyw ffordd (heblaw'r hyn a bennwyd gan y llysoedd) a wnaeth ei atal rhag cyflawni ei swyddogaethau yn briodol neu a wnaeth ddwyn anfri ar y swydd?**

22. Ein hateb i'r cwestiwn yw:

- **Roedd cyfraniad Mr Colman i adroddiadau archwilio ac astudiaethau cenedlaethol a'i ddylanwad arnynt yn briodol. Roedd barn archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn gadarn ac roedd ei gyfraniad i archwiliad o berfformiad yn fuddiol.**
- **Gwnaeth Mr Colman ddwyn anfri ar ei swydd drwy fethu yn ei gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru.**
- **Mewn rhai achosion gweithredodd Mr Colman yn amhriodol wrth reoli Swyddfa Archwilio Cymru drwy wyro oddi wrth drefniadau rheoli a oedd wedi cael eu rhoi ar waith. Roedd y gwyriadau hyn yn faterion a oedd yn cynnwys elfennau o farn wael a/neu amhriodol.**

23. Yn ei sylwadau mae Mr Colman yn herio’n gryf y ffaith bod y materion hyn wedi 'dwyn anfri ar y swydd'.

24. Mae ein canfyddiadau cyffredinol yn seiliedig ar y canlynol:

- Ni chanfuwyd unrhyw faterion pellach gennym yn ymwneud ag ymddygiad Mr Colman y dylid eu cyfeirio at yr heddlu.
- Cadarnhaodd pawb a fynegodd farn ac a gafodd eu cyfweld fod cyfraniad Mr Colman i adroddiadau archwilio ac astudiaethau cenedlaethol a'i ddylanwad arnynt yn fuddiol.
- Roedd trefniadau llywodraethu priodol ar waith yn Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn cael eu hyrwyddo, ond nid bob amser yn cael eu dilyn na'u cymhwyso, gan Mr Colman - rhywbeth y mae Mr Colman yn ei wadu.
- Canfuwyd enghreifftiau gennym lle roedd Mr Colman wedi gwyro oddi wrth brosesau yr oedd wedi cytuno i'w mabwysiadu a'u gweithredu wrth reoli Swyddfa Archwilio Cymru. Mewn rhai achosion cafodd staff Swyddfa Archwilio Cymru eu camarwain, megis yn y modd y gwnaeth ymdrin â phecyn ymddeol y Prif Swyddog Gweithredu - rhywbeth y mae Mr Colman yn ei wadu.

25. Mae materion amrywiol eraill sydd wedi gwrthdaro â'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau yn briodol, wedi cael eu dwyn i'n sylw yn ystod yr adolygiad (gweler paragraffau 63 - 70). Mae'r materion hyn yn cynnwys: y ffordd y gwnaeth Mr Colman reoli cydberthnasau rhyngbersonol rhwng staff a oedd yn atebol iddo; honiadau o ragfarn yn erbyn rhai aelodau o staff; ac o ran priodoldeb ei dreuliau. Rydym wedi dod i'r casgliad bod diffyg tryloywder yn y modd yr oedd Mr Colman yn cyfathrebu ag uwch reolwyr a'r modd yr oedd yn rheoli cyfathrebu rhyngddynt ar adegau, ac nad oedd hyn yn arwain at gynnal busnes Swyddfa Archwilio Cymru mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gennym o amhriodoldeb mewn perthynas â rhagfarn yn erbyn rhai aelodau o staff,
na thystiolaeth o amhriodoldeb mewn perthynas â threuliau Mr Colman.

## Ni chanfuwyd unrhyw faterion pellach o ran ymddygiad Mr Colman a ddylai fod wedi cael eu cyfeirio at yr heddlu

26. Trafodwyd bwriad yr adolygiad hwn gyda Heddlu De Cymru cyn bwrw ymlaen. Drwy gydol yr adolygiad roeddem yn effro i'r posibilrwydd y byddai materion am droseddoldeb posibl yn dod i'r amlwg. Roeddem hefyd yn ymwybodol bod yn rhaid i ni hysbysu pob un a oedd yn cael ei gyfweld, y gallai unrhyw faterion a godwyd, a allai fod o ddiddordeb i'r heddlu, gael eu cyfeirio atynt ar unwaith. Ni chododd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr adolygiad.

27. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r materion a ddaeth i'r golwg ynghylch cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu, rydym wedi ystyried a fyddent, gyda'i gilydd, yn debygol o olygu bod Mr Colman wedi camymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Mater i Wasanaeth Erlyn y Goron yw hyn, ond yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael a'n dealltwriaeth o elfennau'r drosedd nid ydym yn bwriadu cyfeirio'r mater ar gyfer ymchwiliad pellach yn hynny o beth.

## Roedd cyfraniad Mr Colman i adroddiadau archwilio ac astudiaethau cenedlaethol a'i ddylanwad arnynt yn briodol. Roedd barn archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn gadarn ac roedd ei gyfraniad i archwiliadau o berfformiad yn fuddiol - ystyriwyd bod ei gyfraniad a'i ddylanwad yn atgyfnerthu'r broses adrodd

28. Ni wnaeth un o'r 26 aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru a gafodd eu cyfweld fynegi pryderon ynghylch cyfraniad Mr Colman yn ystod y broses o lofnodi barn archwilio nac yn ystod y broses o gyflwyno adroddiadau ar werth am arian. Roedd y staff a gafodd eu cyfweld yn cynnwys pob Partner, Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth, yn ogystal â'r staff hynny a weithiodd yn agos gyda Mr Colman naill ai o ddydd i ddydd neu ar brosiectau penodol. Nododd llawer o staff fod y modd yr oedd Mr Colman yn herio llwybrau ymholi neu gasgliadau o ffeithiau yn ddefnyddiol iawn ac yn arwain at ddull adrodd cliriach a chryfach. Roedd Mr Colman yn gadarn hefyd wrth gyflwyno negeseuon anodd i gyrff archwiliedig.

29. Dywedodd y rhai a gafodd eu cyfweld nad oedd enghreifftiau o farn archwilio ariannol a gyflwynwyd i Mr Colman i'w llofnodi byth yn cael eu newid ganddo. Ni chafodd unrhyw farn archwilio ariannol a roddwyd pan oedd Mr Colman yn ei swydd ei herio. Yn wir, nododd Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol[2] Swyddfa Archwilio Cymru 'Mae gwaith archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, a wneir yn fewnol a chan ei chyflenwyr yn y sector preifat, yn gryfder gwirioneddol. Mae wedi cyflawni yn unol ag amserlenni cynyddol uchelgeisiol a safonau caeth heb amharu ar ansawdd.'

30. Yn gyffredinol, roedd Mr Colman yn ymwneud mwy â gwaith archwilio gwerth am arian, yn hytrach na gwaith archwilio ariannol, ac roedd yn ymwneud yn bersonol â llawer o astudiaethau ac adroddiadau gwerth am arian. Ar adegau, dychwelodd Mr Colman ddogfennau, yn briodol ddigon, at staff Swyddfa Archwilio Cymru, naill ai nes bod gwybodaeth ychwanegol wedi ei hychwanegu i ategu'r casgliadau yn yr adroddiad neu nes iddo gael ei argyhoeddi bod y ddadl dros roi'r casgliad hwnnw wedi ei gwneud yn gywir. Mae'r gwaith archwilio gwerth am arian a gynhaliwyd yn ystod tymor Mr Colman yn ei swydd wedi cael adborth cadarnhaol hefyd. Nododd yr Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol 'Mae adroddiadau

[2]Comisiynodd Mr Colman Adolygiad Cymheiriaid Annibynnol i helpu i gefnogi datblygiad parhaus Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddi symud i'w hail strategaeth tair blynedd. Gofynnwyd i'r tîm adolygu, sy'n cynnwys pum arbenigwr rhyngwladol, archwilio'r gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, archwilio pa mor dda y caiff ei rhedeg ac effeithiolrwydd ei phroses gyfathrebu a'i chydberthnasau â rhanddeiliaid. Gellir gweld copi llawn ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru drwy ddilyn y ddolen isod:

http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/International_Peer_Review_Paper_Welsh.pdf

astudiaethau cenedlaethol o ansawdd uchel ac maent wedi adlewyrchu'n dda ar Swyddfa Archwilio Cymru. Gwnaethom hefyd gael adborth cadarnhaol ar rywfaint o waith archwilio perfformiad lleol.' Cafodd Swyddfa Archwilio Cymru ei chanmol ymhellach gan adolygwyr Cymheiriaid a nododd 'Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hanes da o arloesi. Er enghraifft, mae'r Gyfnewidfa Arfer Da yn adnodd arloesol o ran arfer archwilio cyhoeddus ac yn fenter ardderchog. Mae'r seilwaith a grëwyd gan y fenter hon yn berthnasol iawn i wasanaeth cyhoeddus Cymru lle gwnaethom glywed yn gyson am drafferthion i drosglwyddo arfer da yn effeithiol.'

31. Barn yr enwau cyswllt allanol oedd na ddylanwadodd Mr Colman mewn unrhyw ffordd amhriodol ar ohebiaeth, barn archwilio ariannol nac adroddiadau ar archwiliad o gwerth am arian. Cafwyd sicrwydd hefyd gan gwmnïau nad oedd Mr Colman wedi ceisio cael rhoddion na lletygarwch ganddynt.

## Roedd gan Mr Colman drefniadau llywodraethu priodol ar waith yr oedd yn eu hyrwyddo. Fodd bynnag, ni osododd Mr Colman reolaethau'n gyson ac ar adegau gwnaeth wyro oddi wrthynt

32. Fel y nodwyd yn gynharach, mae prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn deillio o statud, a chan nad yw Swyddfa Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol, rhoddir yr holl bwerau cyfreithiol, yr hawliau a'r dyletswyddau i'r Archwilydd Cyffredinol. Roedd gweithredoedd Mr Colman fel Archwilydd Cyffredinol yn ddarostyngedig i drefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru yr oedd ef ei hun wedi cytuno i ufuddhau iddynt. Fodd bynnag, mynegodd y rhai a gafodd eu cyfweld amheuon amrywiol ynghylch pwyslais Mr Colman ar ei annibyniaeth a'i ddiffyg gwerthfawrogiad o'i atebolrwydd a'r tensiwn yr oedd hynny'n ei greu mewn cysylltiad â'r angen parhaus i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu effeithiol a'r safonau disgwyliedig yn cael eu cynnal - fel yr hyn a nodir yn 'hysbysiadau corfforaethol' (cyfarwyddiadau mewnol) Swyddfa Archwilio Cymru at bob aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cwmpasu materion ynghylch prosesau a gweithdrefnau mewnol.

33. Ysgrifennodd Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar y pryd at yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Chwefror 2008, gan ddiweddaru'r llythyr cynharaf o fis Ebrill 2005, yn nodi manylion cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu wedi eu diweddaru (Atodiad 2) gan yr Archwilydd Cyffredinol. Atgyfnerthodd y llythyr drefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i Mr Colman: 'sefydlu trefniadau priodol, gan gynnwys cyfraniad allanol annibynnol, i roi sylwadau a chyngor yn ffurfiol ar ansawdd a gweithrediad y trefniadau llywodraethu yn Swyddfa Archwilio Cymru, yn arbennig o ran materion risg a rheoli, ac ar faterion yn ymwneud â'ch ymddygiad chi ac ymddygiad eich uwch aelodau o staff. Dylai'r trefniadau hyn, mewn amgylchiadau eithriadol, gynnwys cymeradwyaeth ar gyfer cyflwyno adroddiad uniongyrchol ar eich penderfyniadau a'ch ymddygiad i Gadeirydd Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.'

34. Sefydlodd Mr Colman:

- Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn cynnwys aelodau anweithredol yn unig
- swyddogaeth Gydymffurfio, yn gweithredu'n annibynnol ar reolwyr gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru;
- cofrestr Trafodion yr Archwilydd Cyffredinol (datganiadau annibyniaeth).

Addawodd Mr Colman hefyd y byddai ef fel yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei hun yn ddarostyngedig i drefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan ddilyn trefniadau yn cyfateb i'r rhai yn Llawlyfr Staff a Chod Ymddygiad Swyddfa Archwilio Cymru.

35. Gweithredodd Mr Colman hefyd ar yr argymhellion o'r Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol. Roedd y camau gweithredu hyn yn cynnwys egluro'r trefniadau llywodraethu a rheoli o fewn Swyddfa Archwilio Cymru drwy chwalu'r Bwrdd Partneriaeth a ffurfio Pwyllgor Gweithredol yn lle'r Pwyllgor Rheoli gyda mwy o bwerau dirprwyedig dros y gwaith o reoli Swyddfa Archwilio Cymru. Fel rhan o'r gwaith o drosglwyddo i'r trefniadau gweithredol newydd nododd Mr Colman nad oedd angen swydd y Prif Swyddog Gweithredu mwyach.

36. Cymeradwyodd Mr Colman y gwaith o wella'r trefniadau diogelwch TG yn dilyn achos proffil uchel o ddata a gollwyd rhwng sefydliad archwiliad cyhoeddus arall ac adran o'r Llywodraeth. Arweiniwyd y gwaith o wella trefniadau TG gan y Prif Swyddog Gweithredu ac fe'u cymeradwywyd gan Mr Colman. Gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru fuddsoddi llawer mewn caledwedd newydd i roi'r feddalwedd amgryptio fwyaf cyfredol ar waith a cyhoeddodd ganllawiau ar newidiadau i arferion gwaith. Comisiynodd y Prif Swyddog Gweithredu adolygiad allanol i roi asesiad o drefniadau TG gwell Swyddfa Archwilio Cymru a gadarnhaodd eu bod yn gadarn. Gwnaed argymhellion ar gyfer gwella'r modd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgorffori newidiadau i ddiogelwch gliniaduron a data a chawsant eu derbyn. Dywedodd un aelod o staff a gafodd ei gyfweld ei fod wedi cwestiynu pa mor briodol ydoedd bod staff Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu mynd ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol drwy liniaduron Swyddfa Archwilio Cymru gyda Mr Colman. Yn ôl y sôn, nid oedd Mr Colman am newid yr hawliau mynediad. Yn ei sylwadau ar y paragraff hwn, noda Mr Colman nad yw'n cofio unrhyw drafodaeth o'r fath.

37. Roedd natur troseddu Mr Colman yn ymwneud â'i ddefnydd o gyfarpar TG, a oedd hefyd yn groes i bolisi diogelu gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad i hyn, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cymryd camau gweithredu i wella rheolaethau TG, gan gynnwys dod â'r hawl i allu mynd ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol i ben, a monitro gweithgarwch.

38. Cymerodd Mr Colman gyngor gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ond ni ddilynodd y cyngor hwnnw na gweithredu arno bob tro. Fel endid statudol, gall yr Archwilydd Cyffredinol anwybyddu cyngor os bydd o'r farn bod ganddo reswm da dros wneud hynny. Er bod y trefniadau llywodraethu a nodir uchod yn gynhwysfawr ni allent 'rwystro' yr Archwilydd Cyffredinol na'i orfodi i wneud penderfyniad penodol na chymryd cam arbennig; na herio penderfyniad yn ffurfiol yr oedd wedi ei wneud/bwriadu ei wneud cyhyd â bod y penderfyniad hwnnw wedi ei wneud ar sail arfer ei bwerau yn rhesymol, a bod hynny o fewn ei bwerau ef. Fodd bynnag, ar ôl derbyn trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru,

ac o gofio ei gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu, roedd disgwyliad rhesymol y byddai Mr Colman yn defnyddio ei bwerau ac yn gweithio o fewn y trefniadau llywodraethu hynny, gan gynnwys dogfennu'r rhesymau dros benderfyniadau a wnaed ganddo lle bo hynny'n briodol. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn cyflwynwn faterion yn ymwneud â'r diffyg dogfennaeth mewn perthynas â phenderfyniadau.

39. Anaml yr oedd Mr Colman yn ymwneud yn uniongyrchol â chychwyn contractau gwasanaeth Swyddfa Archwilio Cymru heblaw am wasanaethau y byddai'n ymwneud â hwy yn bersonol, megis mentora a hyfforddi swyddogion gweithredol. Ar adegau o'r fath byddai'n nodi'n glir pwy yn ei farn ef ddylai ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddwyd contractau priodol ar waith ar gyfer gwasanaethau o'r fath ond nid oedd dogfennaeth yn tystio eu bod yn cydymffurfio neu fel arall â rheolau sefydlog Swyddfa Archwilio Cymru bob amser ar gael. Er y gall camau gweithredu o'r fath fod yn unol â phwerau'r Archwilydd Cyffredinol nid ydynt yn cyd-fynd â llywodraethu da, dangos gwerth am arian na chysondeb ag egwyddorion Nolan.

## Canfuwyd enghreifftiau lle yr anwybyddodd Mr Colman drefniadau rheoli cytûn a mabwysiedig a methodd mewn rhai o'i gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu ar ran Swyddfa Archwilio Cymru

40. Canfuwyd enghreifftiau o benderfyniadau a wnaed gan Mr Colman lle nad oedd yn agored gyda'i uwch aelodau o staff na'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ac ymhelaethir arnynt isod. Ni ddarparodd wybodaeth, neu trosglwyddodd wybodaeth yn rhannol neu mewn ffordd ddethol, ac felly nid oedd bob amser yn caniatáu iddynt gyfrannu'n ystyrlon at y broses o wneud penderfyniadau, lle roedd eu rolau a threfniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru yn ôl pob tebyg yn rhoi hawl iddynt wneud hynny. Mae enghreifftiau yn cynnwys pecyn ymddeol y Prif Swyddog Gweithredu a rhai eraill a adawodd Swyddfa Archwilio Cymru, heb eu datgan yn gyson i'r adran adnoddau dynol, y rheolwyr gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

41. Sefydlodd Mr Colman Bwyllgor Rheoli (Gweithredol yn ddiweddarach), yr oedd yn Gadeirydd arno, a Phwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, a Bwrdd Partneriaeth (fforwm ymgynghorol) i roi cyngor iddo. Er gwaethaf bodolaeth y cyrff hyn, roedd Mr Colman mewn dogfennaeth wedi mynegi'r farn nad oedd yn credu bod y dulliau hyn yn gyfrifol am gynnal Swyddfa Archwilio Cymru mewn gwirionedd.

42. Amlygodd yr Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol y posibilrwydd o wella ac atgyfnerthu prosesau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru a'i rheolwyr gan sicrhau nad oedd unrhyw gyfyngiad ar annibyniaeth o farn archwilio a dyfarniadau yr Archwilydd Cyffredinol. Er i Mr Colman weithredu ar yr argymhelliad hwn drwy greu'r Pwyllgor Gweithredol, mynegodd un o'i aelodau y farn na fyddai gweithredu'r Pwyllgor Gweithredol wedi newid dull rheoli Mr Colman.

43. Trafodir enghreifftiau sy'n cwestiynu dull rheoli Mr Colman isod. Ar ôl sefydlu nifer o ddulliau gyda'r bwriad yn ôl pob tebyg o sicrhau llywodraethu corfforaethol da, ni wnaeth randdirymiadau Mr Colman unrhyw beth i feithrin tryloywder na chymhwyso'r broses ddyledus briodol. Gwnaeth ei ddull rheoli a'r diwylliant a greodd ei alluogi i anwybyddu'r rheolaethau yr oedd wedi eu rhoi ar waith pan ddymunai wneud hynny. Oherwydd y dull gweithredu hwn roedd ei gyfiawnhad dros benderfyniadau a wnaed yn agored iawn i gael eu herio'n ddiangen, yn aml iawn oherwydd diffyg dogfennaeth, am nad oedd yn glynu wrth y dulliau mewnol ac anallu i ddangos gwerth am arian. Mae'r materion hyn yn anghyson â nifer o gyfrifoldebau Mr Colman fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y gofyniad ei fod yn dangos stiwardiaeth gadarn o'r adnoddau sydd ar gael at ei ddefnydd. Nodir crynodebau byr o'r achosion sydd wedi ein harwain i fynegi'r farn hon isod.

## Materion Cyfrifyddu

44. Yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 9 Rhagfyr 2010, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol newydd ddau adroddiad ar ddatganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru - un gan Archwiliad Mewnol ar gyfrifon 2009-10 ac un gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar y cyfrifon rhwng 2005 a 2010. Daeth y ddau adolygiad i gasgliadau tebyg:

- gwnaeth y cyfrifon gam-ddatgan sefyllfa ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, roedd agweddau ar eu cyflwyniad yn ddiffygiol ac roedd gwendidau mewn polisi ac arfer cysylltiedig;
- roedd angen cryfhau'r trefniadau llywodraethu ynghylch paratoi'r cyfrifon, a'u gweithredu'n gywir, er mwyn sicrhau bod materion a allai fod yn ddadleuol yn cael eu trafod yn briodol;
- dylai trefniadau cyfrifyddu rheoli Swyddfa Archwilio Cymru ategu'r gwaith o gynhyrchu'r cyfrifon blynyddol yn fwy effeithiol.

45. Mae'r casgliadau hyn yn tynnu sylw at fethiant Mr Colman yn ei gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau bod y gweithdrefnau ariannol priodol yn cael eu dilyn a bod yr arian cyhoeddus yr oedd yn gyfrifol amdano yn cael ei reoli'n briodol (gweler Atodiad 2 am ragor o fanylion). Nid yw manylion yr adroddiadau hyn, sydd ar gael yn gyhoeddus, yn cael eu hailadrodd yma. Mae adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn rhoi sylwadau ar yr angen i wella Llythyr y Swyddog Cyfrifyddu, ac ar yr hyn y mae'r adolygwyr yn ei ddisgrifio fel diwylliant nad oedd yn croesawu, ac a weithredodd i leihau, y cyfle i herio (ar faterion yn ymwneud â'r cyfrifon); a'r rheidrwydd canfyddedig i sicrhau 'cydbwysedd ariannol'. Mae'r sylwadau hyn yn gredadwy ac yn gyson â'n barn ar reolaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod daliadaeth Mr Colman.

46. Yn ei sylwadau, ar y rhannau o'r adroddiad a ddarparwyd iddo fel rhan o'r broses glirio, heriodd y Pennaeth Cyllid gasgliadau'r adroddiad Archwiliad Mewnol ac adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel y nodwyd uchod. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y cyfrifon dan sylw wedi cael barn archwilio ddiamod gan yr archwilydd allanol.

## Ymadawiad y Prif Swyddog Gweithredu

47. Yn ystod ein hadolygiad bu ymadawiad y Prif Swyddog Gweithredu yn destun cryn sylw a thrafod yn y cyfryngau. Gwnaed honiadau amrywiol o ran natur ac amseriad yr ymadawiad a'r trefniadau ariannol a oedd yn gysylltiedig ag ef. Mae'r dystiolaeth ddogfennol hysbys gynharaf sy'n cynnwys safbwyntiau Mr Colman am ddileu rôl y Prif Swyddog Gweithredu yn ddyddiedig 1 Ebrill 2009. Mewn e-bost at y Prif Swyddog Gweithredu dywedodd Mr Colman: 'I like to think that my word is my bond, but nevertheless I thought I should record in writing the following aspects of our conversations over the past two days.' Ac, 'In considering my response to the self-assessment [mewn adolygiad mewnol cyn Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol Swyddfa Archwilio Cymru], I wished to consider options for significant change. We discussed a number of these. I told you that I would wish to include examining the continued need for a Chief Operating Officer post.' Yn ei sylwadau ar y paragraff hwn cadarnhaodd Mr Colman mai'r neges e-bost y cyfeirir ati yw'r tro cyntaf yn wir iddo gofnodi'r safbwyntiau yng nghyswllt hynny.

48. Hysbysodd Mr Colman Bartneriaid Swyddfa Archwilio Cymru gyntaf o ymadawiad y Prif Swyddog Gweithredu oedd ar fin digwydd yn ystod gweithdy 'Datblygu'r Sefydliad' ar 17 Mehefin 2009, ac yna hysbyswyd pob aelod o staff o hyn yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw drwy e-bost: 'I consider that the role of Chief Operating Officer is no longer needed...The reasons for creating the COO post are therefore no longer pertinent and there is now good reason to make this change.' Cyhoeddodd Mr Colman fod yr ymadawiad yn dilyn penderfyniad personol a wnaed gan y Prif Swyddog Gweithredu, a'i fod yn gadael heb 'becyn'. Ar ddiwrnod y cyhoeddiad gofynnodd Partner Cydymffurfio Swyddfa Archwilio Cymru i Mr Colman a oedd yn fwriad i'r Prif Swyddog Gweithredu gael pecyn a chafodd wybod gan Mr Colman na fyddai'n cael un. Yn ddiweddarach, gofynnodd y Partner Cydymffurfio i'r Pennaeth Cyllid a oedd yn fwriad i'r Prif Swyddog Gweithredu gael pecyn a chafodd yr un ymateb sef 'dim pecyn'. Gofynnodd un o Bartneriaid eraill Swyddfa Archwilio Cymru yr un cwestiwn i Mr Colman a'r Pennaeth Cyllid a chafodd yr un ateb. Yn ei sylwadau ar y paragraff hwn dywedodd Mr Colman nad oedd yn cofio'r naill sgwrs na'r llall a gofnodir yma. Cawsom wybod wedi hyn i'r Pennaeth Cyllid gael ei gyfarwyddo gan Mr Colman i gadw'r trefniant yn gyfrinachol, na ddylid ymgynghori â neb o fewn Swyddfa Archwilio Cymru, ac na ddylai unrhyw drefniadau, na gohebiaeth mewn cysylltiad â hwy, fod yn ysgrifenedig, ar wahân i'r cytundeb cyfaddawdol. Yn ei sylwadau, ar y rhannau o'r adroddiad a ddarparwyd iddo fel rhan o'r broses glirio, dywedodd y Pennaeth Cyllid iddo gynghori Mr Colman y dylai cytundeb cyfaddawdol gael ei roi ar waith 'at ddibenion awdurdodi'.

49. Cawsom ein hysbysu hefyd i Mr Colman oddeutu 19 Mehefin 2009, gysylltu â chynghorydd allanol o ran ymdrin â'r cyfryngau mewn perthynas ag ymadawiad y Prif Swyddog Gweithredu. Cadarnhaodd Mr Colman fod y Prif Swyddog Gweithredu yn gadael ac y byddai'n cael swm sylweddol o arian fel iawndal. Rhagwelodd Mr Colman y byddai maint yr iawndal yn fater sensitif. Dywedwyd wrth Mr Colman y byddai angen i'r strategaeth gychwynnol ar gyfer ymdrin â'r cyfryngau gydnabod y byddai swm yr iawndal yn dod yn hysbys i bawb yn ddiweddarach pan fyddai cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu cyhoeddi.

Mae'n debyg i Mr Colman ymateb drwy ddweud na fyddai hynny o reidrwydd yn wir gan nad oedd y swm yn mynd i ymddangos yn y cyfrifon yn y fath fodd fel y byddai'n cael ei gysylltu ag ymadawiad y Prif Swyddog Gweithredu gan fod Mr Colman yn pryderu am enw da Swyddfa Archwilio Cymru a phreifatrwydd y Prif Swyddog Gweithredu.

50. Yn ystod ein cyfweliadau â Phartneriaid, Penaethiaid Gwasanaeth a staff, cadarnhaodd pawb heblaw'r Pennaeth Cyllid nad oeddent yn gwybod am y trefniadau ar gyfer ymadawiad y Prif Swyddog Gweithredu yn ystod y cyfnod cyn ei ymadawiad. Cafodd y Pennaeth Adnoddau Dynol ei hepgor yn benodol o'r trafodaethau ar gais y Prif Swyddog Gweithredu. Cytunodd Mr Colman ar y trefniant terfynu gyda'r Prif Swyddog Gweithredu ar ôl cyd-drafodaethau rhwng y Pennaeth Cyllid (o dan ei gyfarwyddyd), a'r Prif Swyddog Gweithredu a gynhaliwyd rhwng cyfreithwyr a benodwyd yn annibynnol gan bob parti. Cafodd y setliad ei grynhoi mewn cytundeb cyfaddawdol a lofnodwyd gan Mr Colman a'r Prif Swyddog Gweithredu ac roedd yn cynnwys telerau yn cyfeirio at gyfrinachedd, ymhlith pethau eraill. Yn ei sylwadau, ar y rhannau o'r adroddiad a ddarparwyd iddo fel rhan o'r broses glirio, dywed y Pennaeth Cyllid fod 'negotiations' yn 'overstating matters. It was facilitation.'

51. Adolygwyd setliad y Prif Swyddog Gweithredu gan archwilwyr allanol Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'u harchwiliad o gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru. Datgelwyd cyfandaliad taladwy o dan y trefniadau yn llawn yng nghyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ond ni chafodd y rhwymedigaeth pensiwn barhaus, er iddi gael ei nodi, ei meintioli ac ni roddwyd cyfrif yn briodol amdani yn y cyfrifon. Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol ar 18 Mehefin 2010 gyda barn archwilio allanol ddiamod, a nododd i'r Prif Swyddog Gweithredu 'adael cyflogaeth yr Archwilydd Cyffredinol ar 30 Medi 2009. Fel iawndal am derfynu ei gontract, cafodd £107,580 ac mae rhwymedigaeth o hyd i gyfrannu at ei gynllun pensiwn hyd nes iddo gyrraedd yr oedran ymddeol arferol.' Cododd datgeliad yr Adroddiad Cydnabyddiaeth gwestiynau wedyn ynghylch priodoldeb y setliad yn fewnol o fewn Swyddfa Archwilio Cymru ac yn allanol.

52. Nid yw staff Swyddfa Archwilio Cymru yn weision sifil ond mae ganddynt yr hawl i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Gallai setliad y Prif Swyddog Gweithredu fod wedi bod ar sail unrhyw un o dri dewis: ymddeoliad cynnar cymeradwy, ymddeoliad cynnar hyblyg neu ymddeoliad cynnar gorfodol. Roedd gan Mr Colman ddisgresiwn o ran setliad y Prif Swyddog Gweithredu. Roedd y setliad y cytunwyd arno yn seiliedig ar ymddeoliad cynnar cymeradwy ynghyd â chyfandaliad. Costau gwirioneddol y setliad yw tua £745,000 dros ddeng mlynedd sydd tua £100,000 yn llai nag uchafswm yr hawl y gallai'r Prif Swyddog Gweithredu fod wedi mynnu ei gael, yn ôl yr hyn a ddeallwn, oherwydd hawliau cyflogaeth cronnus o gyflogaeth flaenorol.

53. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi hyn wedi cael cyngor yn cadarnhau cyfreithlondeb pecyn y Prif Swyddog Gweithredu, a bod y symiau dan sylw o fewn telerau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cynghorwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn benodol, ar sail y dyddiad hysbys cynharaf yr ymddengys i Mr Colman benderfynu y dylid dileu swydd y Prif Swyddog Gweithredu (1 Ebrill 2009), pe bai Mr Colman wedi ceisio cyflymu ymadawiad y Prif Swyddog Gweithredu i orfodi achos o ddileu swydd, h.y. i osgoi'r llwybr ymddeol yn 50 oed, y byddai'r Prif Swyddog Gweithredu wedi cael rheswm da iawn dros gymryd camau cyfreithiol yn erbyn yr Archwilydd Cyffredinol gyda thebygolrwydd mawr iawn o lwyddo a chael iawndal.

54. Heblaw y cyfeiriad at faterion cyfrinachedd/enw da a nodwyd uchod, nid oes unrhyw gofnodion yn nodi pam y penderfynodd Mr Colman ymdrin ag ymadawiad y Prif Swyddog Gweithredu yn y modd hwn. Fodd bynnag, mae'n glir bod Mr Colman wedi cychwyn y camau gweithredu yn fwriadol gyda'r nod o wneud pecyn y Prif Swyddog Gweithredu yn llai amlwg. Wrth wneud hynny gwnaeth gamarwain Partneriaid, staff a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Anwybyddodd drefniadau llywodraethu mabwysiedig, a methodd yn ei gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Er iddo sicrhau cyfrinachedd priodol, gan gynnwys ymdrin â sensitifrwydd y mater, byddai rhywun wedi disgwyl i Mr Colman gymryd cyngor gan yr adran Adnoddau Dynol waeth beth oedd dewis y Prif Swyddog Gweithredu, ac i gyflwyno achos busnes dros ddileu rôl y Prif Swyddog Gweithredu, ac wedi hynny, eiriad/telerau'r cytundeb cyfaddawdol arfaethedig i'r rheolwyr gweithredol ar y pryd, ac i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, er mwyn sicrhau bod proses graffu briodol wedi ei rhoi ar waith a bod y trefniadau cyfrifyddu wedi eu hystyried yn briodol.

55. Mae'r diffyg tryloywder o ran y modd y cytunwyd ar y trefniant, a'r cam-gyfrifyddu am y rhwymedigaeth pensiwn barhaus yn groes i arfer cyfrifyddu priodol. Fodd bynnag, unwaith iddo gael ei nodi gan uwch reolwyr o fewn Swyddfa Archwilio Cymru, ymchwiliwyd i'r camddefnydd o'r driniaeth gyfrifyddu gan yr Archwilydd Cyffredinol dros dro ac arweiniodd hyn at ganfod enghreifftiau o gam-gyfrifyddu mewn achosion diswyddo eraill ers 2005. Comisiynodd yr Archwilydd Cyffredinol dros dro a'r un newydd yr adolygiad Archwiliad Mewnol o gyfrifon 2009-10 Swyddfa Archwilio Cymru ac adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o gyfrifon 2005 i 2010 Swyddfa Archwilio Cymru yn y drefn honno (gweler adroddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Archwiliad Mewnol y cyfeirir atynt uchod).

56. Yn ei sylwadau ar ymddeoliad y Prif Swyddog Gweithredu noda Mr Colman nad yw'n cytuno bod unrhyw beth yn amhriodol nac yn ddadleuol ynghylch y modd yr ymdriniodd â threfniadau ymddeol y Prif Swyddog Gweithredu. Mae Mr Colman yn gwadu iddo gamarwain unrhyw un ac yn pwysleisio hynny.

## Materion staffio

**57.** Roedd Archwilwyr Mewnol a Phwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Swyddfa Archwilio Cymru wedi codi pryderon ynghylch y ffaith bod oedi wedi bod wrth ymdrin â materion, megis yr amser a gymerodd i gytuno ar yr holl bolisïau a gweithdrefnau a sicrhau eu bod ar waith, ond ni weithredwyd yn bendant arnynt gan Mr Colman, neu ni wnaeth sicrhau bod eraill yn gweithredu arnynt yn ôl yr angen. Canfuwyd enghreifftiau hefyd lle yr ymddengys i Mr Colman, heb esboniad wedi ei ddogfennu, fynd y tu hwnt i brosesau Swyddfa Archwilio Cymru wrth ymdrin â materion staffio yn annoeth o bosibl ac mewn ffordd nad oedd yn dryloyw.

**58.** Nid yw ein hadroddiad yn cynnwys manylion y materion a adolygwyd gennym ac a achosodd i ni ddod i'r casgliad hwn, oherwydd byddai gwneud hynny yn golygu nodi a datgelu gwybodaeth am nifer o unigolion ar lefelau gwahanol o ran swyddi. Byddai nodi a datgelu yn y fath fodd yn annheg ac yn anghymesur, ac mewn nifer o achosion byddai hyn yn groes i ddisgwyliadau rhesymol yr unigolion hynny o ran yr amgylchiadau y byddai gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhyddhau i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gallwn nodi bod y materion yn ymwneud â'r rhan a chwaraeodd Mr Colman mewn materion sy'n gysylltiedig â chwynion; gwerthuso swyddi; materion y tu allan i'r broses o werthuso swyddi, ond yn gysylltiedig â hi; a threfniadau ar gyfer staff sy'n gadael Swyddfa Archwilio Cymru. Ym mhob achos, roedd y diffyg tryloywder a dogfennaeth ynghylch y rhan a chwaraeodd Mr Colman yn fethiant i ddilyn y broses briodol.

**59.** Yn ein barn ni, dylai Mr Colman fod wedi sicrhau bod y rhan a chwaraeodd a'i ymyriadau yn cael eu bwydo drwodd i'r prosesau priodol perthnasol a threfniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru (e.e. Cydymffurfio, y Pwyllgor Rheoli/Gweithredol, a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg) i sicrhau atebolrwydd priodol ac i gymhwyso prosesau y cytunwyd arnynt. Roedd yn annoeth i Mr Colman beidio â sicrhau bod y prosesau priodol yn cael eu dilyn o gofio'r canfyddiad y gallai camau o'r fath ei greu.

## Tystiolaeth o wneud penderfyniadau

**60.** Rydym eisoes wedi cyfeirio at nifer o enghreifftiau o ddiffyg dogfennaeth o benderfyniadau a wnaed gan Mr Colman. Enghraifft arall o hyn yw awdurdodiad Mr Colman o'i hyfforddiant a'i ddatblygiad ef ei hun a hyfforddiant a datblygiad y Prif Swyddog Gweithredu lle na chafwyd fawr ddim dogfennaeth i ddangos sut y penderfynwyd ar anghenion hyfforddi, cyrsiau a nodwyd, a'r budd o'r hyfforddiant a bennwyd. Rhoddodd Mr Colman gyfarwyddiadau uniongyrchol i uwch aelodau o staff gymryd camau gweithredu na chawsant eu dogfennu os na wnaeth yr aelod hwnnw o staff eu cofnodi. Yn amlwg rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol allu rhoi cyfarwyddiadau i staff a gwybod y cânt eu dilyn heb iddo orfod cofnodi pob cyfarwyddyd bach, ond dylai prosesau sefydledig ar gyfer cofnodi penderfyniadau gael eu dilyn ac mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol, fel unrhyw ddeiliad swydd gyhoeddus arall, sicrhau y cofnodir penderfyniadau busnes o bwys.

61. Yn ei sylwadau mae Mr Colman yn nodi bod y cyfeiriad at ddiffyg dogfennaeth o benderfyniadau yn gyhuddiad cyffredinol annheg. Mae'n mynd yn ei flaen i nodi nad yw'n gweld unrhyw fudd mewn llenwi ffurflenni dim ond er mwyn gwneud hynny pan fo'r penderfyniadau ar y lefel honno yn fater o farn i raddau helaeth iawn.

## Materion eraill sy'n codi

62. Yn ogystal â'r materion y cyfeirir atynt uchod, rydym wedi ystyried materion amrywiol eraill, a nodir isod. Yn ein barn ni mae'r materion hyn ym mharagraffau 63 i 66 yn nodi elfennau o benderfyniadau gwael sy'n effeithio ar allu Mr Colman i gyflawni ei rôl yn gywir. Ni wnawn unrhyw ganfyddiadau o benderfyniadau gwael, nac unrhyw ganfyddiadau croes eraill, mewn perthynas â'r materion a drafodir ym mharagraffau 67 i 70.

### Cyfathrebu'n wael ag uwch reolwyr

63. Yn rhinwedd ei swydd fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, gwnaeth Mr Colman rwydweithio'n helaeth, er yn unigol gyda phobl allweddol yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, dim ond yn anffurfiol ac yn anaml y rhoddodd adborth ar y cyfarfodydd hynny i uwch aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru. O ran ei ryngweithio â Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phrif Weithredwyr cyrff archwiliedig, lliniarwyd yr olaf gan fod Partneriaid yn trefnu cyfarfodydd yn union wedi'r cysylltiad â Mr Colman, ond roedd perygl o gamddeall materion pwysig a godwyd yn y cyfarfodydd hynny. Cynigiodd y partneriaid y dylid cymryd cofnodion neu sicrhau presenoldeb ychwanegol mewn cyfarfodydd ond roedd Mr Colman yn mynnu ei fod yn cael cyfarfodydd un i un.

64. Er ei fod yn briodol i'r Archwilydd Cyffredinol sicrhau bod rhai cyfarfodydd neu rannau o gyfarfodydd yn 'gaeedig' i staff Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cael adborth cyfrinachol, roedd cyfarfod yn breifat yn unig, a methu â rhoi adborth effeithiol i uwch reolwyr yn golygu nad oedd tryloywder ac nad oedd hyn yn gydnaws â sicrhau bod busnes Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol.

65. Yn ei sylwadau ar baragraffau 63 a 64 dywed Mr Colman nad cyfathrebu gwael yw cyfathrebu yr hyn sy'n berthnasol yn ei farn ef. Yn ei farn ef roedd cynhyrchu nodiadau o bob cyfarfod yn ddefnydd gwael o adnoddau.

### Cydberthnasau partneriaid

66. Roedd dull rheoli Mr Colman weithiau yn creu tensiwn rhwng y Partneriaid. Mewn un achos lle roedd gan ddau Bartner wahaniaeth barn ar driniaeth gyfrifyddu helpodd Mr Colman i greu sefyllfa amhosibl neu 'impasse' drwy gyfarwyddo un o'r Partneriaid i beidio â hysbysu'r llall o'r rhesymeg dros ei ddehongliad cyfrifyddu. Yna gofynnodd Mr Colman am gyngor arbenigol, na fyddai wedi bod yn angenrheidiol fel arall, i ddatrys yr impasse. Mae'r dull gweithredu hwn nid yn unig yn codi materion ynghylch gwerth am arian a'r dull o ymdrin â gwahaniaeth barn, ond achosodd broblemau hefyd â thrafodaethau

gyda chleientiaid allanol. Yn ei sylw ar y paragraff hwn mae Mr Colman yn gwadu iddo helpu i greu impasse.

## Cydberthnasau staff

67. Nododd unigolion mewn trafodaethau eu bod yn teimlo bod Mr Colman yn eu rhoi dan anfantais, neu fod ganddo ragfarn yn eu herbyn, am resymau amrywiol yn cynnwys aelodaeth o undeb, cyfleoedd am ddyrchafiad a gwerthuso swyddi. Gwnaethom edrych drwy negeseuon e-bost Mr Colman am dystiolaeth i weld ble y gallai fod wedi gwneud sylwadau dilornus am grwpiau neu unigolion neu sylwadau eraill a allai fod wedi effeithio'n andwyol ar eu dyrchafiad neu ganlyniadau gwerthuso swyddi. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o'r fath gennym yn y negeseuon e-bost a adolygwyd gennym, nac yng nghofnodion Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ei sylwadau ar y paragraff hwn mae Mr Colman yn gwadu'n gryf iddo fod ag unrhyw ragfarn o'r fath.

## Treuliau, tacsis, cardiau prynu a biliau gwestai

68. Mynegodd sawl un a gafodd eu cyfweld bryder ynghylch priodoldeb treuliau Mr Colman. Ymatebodd Swyddfa Archwilio Cymru i nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth dilynol yn ymwneud â threuliau Mr Colman, y gellir eu gweld ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

69. Gwnaethom adolygu treuliau Mr Colman i gyd ym mlwyddyn ariannol 2009-10 a sampl o dreuliau o flynyddoedd ariannol 2005-06, 2006-07, 2007-08 a 2008-09. Ni nodwyd unrhyw enghreifftiau gennym lle roedd yn ymddangos bod Mr Colman wedi gwneud cais am dreuliau nad aethpwyd iddynt. Yn ogystal, gwnaethom edrych ar gyfriflenni cardiau prynu Swyddfa Archwilio Cymru ac anfonebau gwestai, ar y cyd â hawliadau am dreuliau. Unwaith eto ni chododd y rhain unrhyw faterion heblaw tueddiad Mr Colman i aros mewn gwestai gwahanol i rai'r staff yr oedd yn teithio gyda nhw ar y pryd. Roedd y gwestai yr arhosodd Mr Colman ynddynt yn rhai drutach fel arfer. Gellir cadarnhau diben busnes defnyddio gwesty ond, fel gyda materion eraill yn ymwneud â phroses bersonol Mr Colman o wneud penderfyniadau, ni chofnodir rhesymau dros ddefnyddio gwestai drutach. Nododd rhai hawliadau am dreuliau arbedion gan fod Mr Colman wedi defnyddio ei docyn bws neu gerdyn rheilffordd i gael gostyngiadau, ac wedi defnyddio ei feic yn lle teithio mewn car neu dacsi.

70. Codwyd cwestiynau gan y rhai a gafodd eu cyfweld ynghylch defnydd Mr Colman o dacsis ar gyfer teithiau pellter hwy y gellid bod wedi eu gwneud i raddau helaeth ar drên, neu drwy rannu car, ac ynghylch cost talu 'amser aros' tacsi pan oedd Mr Colman mewn cyfarfodydd. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio ceir cludo yn ogystal â thacsis ar gyfer teithiau hwy yn gysylltiedig â busnes, er enghraifft yn ôl ac ymlaen i feysydd awyr. Unwaith eto bu'r materion hyn yn destun ymatebion Rhyddid Gwybodaeth y gellir eu gweld ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru. Gellir cadarnhau diben busnes y daith ond, fel gyda materion eraill yn ymwneud â phroses bersonol Mr Colman o wneud penderfyniadau, ni chofnodwyd y rhesymau dros y dull teithio. Rhoddwyd pris am dacsi fel arfer ymlaen llaw a chafodd unrhyw amser aros ei gynnwys yn y dyfynbris. Cofnodwyd

amseroedd aros ar adegau fel tâl ychwanegol ar anfonebau a adolygwyd ond y swm uchaf a ganfuwyd rhwng 2008 a 2010 oedd £2.50.

71. Yn ei sylwadau ar baragraffau 68 i 70 noda Mr Colman nad y dull teithio rhataf bob amser yw'r un cyflymaf ac roedd ei amser ef yn werthfawr i'r cyhoedd. Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud, os yw'n cael ei feirniadu am fynd mewn tacsi pan fyddai trên efallai wedi bod ar gael, yna dylai gael ei ganmol am fynd ar drên (lle y gallai weithio) yn lle gyrru ei gar ei hun (lle na fyddai wedi gallu gweithio).

## Argymhellion

72. Mae llawer o'r materion yn yr adroddiad hwn yn codi oherwydd dull rheoli Mr Colman a'i gamau canlyniadol. Er mwyn i'r trefniadau llywodraethu a oedd yn bodoli ar y pryd fod wedi canfod enghreifftiau lle roedd Mr Colman wedi eu hanwybyddu, byddent wedi gorfod gweithredu ar sail 'dim ymddiriedaeth' ac ni fyddai hyn wedi bod yn gydnaws â chydberthnasau cynhyrchiol a gwneud penderfyniadau amserol.

73. Fodd bynnag, cyfyd problem serch hynny: sut y gellir dwyn yr Archwilydd Cyffredinol i gyfrif yn ddigonol am ei gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu a'i reolaeth dros Swyddfa Archwilio Cymru, gan sicrhau ar yr un pryd ei annibyniaeth o ran archwilio gweithredol sy'n hanfodol er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol allu cyflawni ei ddiben er budd pobl Cymru? Mae'r argymhellion canlynol yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol y materion a nodwyd gennym yn hytrach na manylion pob mater unigol, ac maent yn ymwneud â'r angen i drefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys eu cymhwyso at gamau gweithredu'r Archwilydd Cyffredinol:

| | |
|---|---|
| A1 | Darparu llwybrau atebolrwydd clir ar gyfer penderfyniadau'r Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Gweithredol yn ymwneud â:<br>• rheoli a defnyddio adnoddau;<br>• cydnabyddiaeth ariannol pob aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru ond yn enwedig uwch swyddogion gweithredol, gan gynnwys yr adeg pan gânt eu recriwtio a phan fyddant yn gadael Swyddfa Archwilio Cymru (gan gynnwys y defnydd o gytundebau cyfaddawdol a'u cynnwys), pensiynau ac enillion eraill;<br>• materion yn ymwneud ag archwiliad mewnol ac allanol a rheolaeth weithredol a risg strategol. |
| A2 | Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cadarnhau tryloywder penderfyniadau cyn y broses graffu ac wedi hynny a'r broses herio yn golygu y caiff unrhyw wyro arfaethedig oddi wrthynt ei gydnabod ar unwaith. |
| A3 | Darparu cyfle blynyddol i randdeiliaid, swyddogion anweithredol a swyddogion gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru adolygu cofnod llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf a thrafod gwelliannau yn y dyfodol. |

74. Cydnabyddwn y bydd cynigion llywodraethu'r Archwilydd Cyffredinol newydd, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Hydref 2010, yn mynd i'r afael ag argymhellion 1, 2 a 3. Yn ogystal, byddwn hefyd yn argymell:

| | |
|---|---|
| A4 | Penodi aelodau anweithredol newydd y pwyllgorau llywodraethu newydd yn cael eu penodi mewn dull agored a thryloyw. |
| A5 | Ar ôl eu penodi, rhoddir trefniadau ar waith i sicrhau bod aelodau anweithredol yn cyfathrebu'n effeithiol ar draws eu meysydd portffolio priodol. |

75. Nodwn fod yr Archwilydd Cyffredinol newydd hefyd wedi cytuno i weithredu'r holl argymhellion sydd o fewn ei reolaeth o:

- adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru a'r trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â hwy;
- adroddiad Archwiliad Mewnol ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru a'r trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â hwy;
- adroddiad Archwiliad Mewnol ar drefniadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer ‘gwaith yn mynd rhagddo’.

76. Bydd camau gweithredu ar yr argymhellion uchod yn sicrhau gwelliannau eang a sylfaenol yn y ffordd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal busnes. Ochr yn ochr â'r gwelliannau hynny rydym hefyd yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol newydd:

| | |
|---|---|
| A6 | Yn adolygu dogfennaeth a pholisïau ac arferion cadw cofnodion Swyddfa Archwilio Cymru ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws Swyddfa Archwilio Cymru. |
| A7 | Yn ystyried sut y bydd y trefniadau llywodraethu newydd yn ei gefnogi i gydbwyso ei gyfraniad priodol ac angenrheidiol ym materion strategol a gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru gan gadw pellter priodol oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru, fel rheoleiddiwr archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys gweithgareddau archwilio Swyddfa Archwilio Cymru). |
| A8 | Yn sicrhau gwelliant parhaus trefniadau diogelu TG Swyddfa Archwilio Cymru. |
| A9 | Yn ystyried y gwersi sy'n deillio o'r adolygiad hwn yng nghyd-destun eu potensial ar gyfer eu cymhwyso'n ehangach ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. |

Atodiad 1

# Cylch Gorchwyl a Chwmpas yr Adolygiad

## Adolygiad o ymddygiad Jeremy Colman yn ei swydd

i. Gwnaeth Jeremy Colman ddal Swydd Archwilydd Cyffredinol tan 5 Chwefror 2010. Fel yr Archwilydd Cyffredinol, roedd gan Jeremy Colman swyddogaethau statudol, yr oedd yn eu harfer ei hunan neu drwy ei staff a chontractwyr fel yr awdurdodwyd ganddo.

ii. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) ar 3 Chwefror 2010, fod Jeremy Colman wedi ymddiswyddo o'i swydd fel Archwilydd Cyffredinol. Dilynodd y cyhoeddiad hwn adolygiad mewnol Swyddfa Archwilio Cymru o ymddygiad personol Jeremy Colman mewn perthynas ag offer TG. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyfeirio pryderon at yr heddlu o ran ymddygiad personol Jeremy Colman ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydweithredu'n llawn ag ymchwiliadau Heddlu De Cymru.

iii. Yn dilyn y materion o ran ymddygiad Jeremy Colman mewn perthynas â chyfarpar TG, bydd yr adolygiad hwn yn ceisio ateb y cwestiwn: **A wnaeth Mr Colman, pan oedd yn Archwilydd Cyffredinol Cymru, gamymddwyn mewn unrhyw ffordd (heblaw'r hyn a bennwyd gan y llysoedd) a wnaeth ei atal rhag cyflawni ei swyddogaethau yn briodol neu a wnaeth ddwyn anfri ar y Swydd?**

iv. Nod yr ymarfer yw darparu sicrwydd nad oes angen mynd i'r afael â materion pellach o bwys o ran camymddygiad a methiannau cysylltiedig yn y broses fusnes, neu, os oes materion o'r fath yn codi, i'w nodi fel y gellir cymryd camau gweithredu priodol.

v. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio i ddechrau ar y cyfnod 1 Ebrill 2009 hyd at ddyddiad ymadawiad Jeremy Colman. Fodd bynnag, bydd hefyd yn mynd i'r afael â chyfnodau cynharach os, yn ystod yr adolygiad, y bydd y wybodaeth yn datgelu y bydd cyfnodau o'r fath yn berthnasol i ateb y cwestiwn uchod.

vi. Er mwyn ateb y cwestiwn, byddwn yn ystyried y cwestiynau manylach canlynol:

   a. A wnaeth Jeremy Colman gamymddwyn mewn perthynas ag adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys mewn perthynas â thaliadau ar gyfer yr adnoddau hynny?

      i. A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas â chyllid (amcangyfrifon a ffioedd)?

      ii. A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas â recriwtio a chadw staff?

      iii. A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas ag eiddo, cyflenwadau, cyfarpar a gwasanaethau?

b. A wnaeth Jeremy Colman gamymddwyn mewn perthynas â phrosesau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru?

   i A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas â chynllunio sefydliadol, gan gynnwys dirprwyo awdurdod?

   ii. A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas â chynllunio gwaith a dyrannu cyfrifoldebau?

   iii. A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas â gweithredu gwaith maes?

   iv. A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas â phenodiadau archwilwyr?

   v. A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas â gweithdrefnau adnoddau dynol, gan gynnwys penodiadau staff mewnol, gweithdrefnau cwyno a disgyblu?

c. A wnaeth Jeremy Colman gamymddwyn mewn perthynas ag allbynnau Swyddfa Archwilio Cymru?

   i A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas ag ardystio a chyflwyno adroddiadau ar gyfrifon?

   ii. A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas â drafftio, clirio a chyhoeddi adroddiadau?

   iii . A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas ag allbynnau eraill, e.e, gohebiaeth a chynadleddau?

   iv. A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas â hyrwyddo allbynnau?

ch. A wnaeth Jeremy Colman gamymddwyn mewn perthynas ag adolygu ac atebolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru?

   i. A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas ag adolygiadau allanol, gan gynnwys yr adolygiad cymheiriaid a'r archwiliad allanol?

   ii. A wnaeth gamymddwyn mewn perthynas ag adolygiadau mewnol, gan gynnwys yr hunan-asesiad ac archwiliad mewnol?

vii. Wrth ymdrin â'r cwestiynau hyn, bydd y tîm yn ystyried a wnaeth unrhyw gamymddwyn atal swyddogaethau rhag cael eu cyflawni'n briodol neu ddwyn anfri ar y Swyddfa.

## Dull

viii. Bydd y tîm adolygu yn mynd i'r afael â'r cwestiynau uchod drwy gyfweliadau â staff perthnasol a phartïon allanol, a maes gwaith arall, megis adolygu cofnodion, fel y'u pennir gan hierarchaeth cwestiynau ac amserlen gwaith maes llawn y tîm.

## Hysbysu

ix. Anfonwyd neges e-bost at bob aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru yn hysbysu'r staff o'r angen am yr adolygiad hwn a chwmpas cyffredinol yr adolygiad:

‘Annwyl bawb

Yng ngoleuni digwyddiadau diweddar ynghylch ymddygiad personol Jeremy, a'r defnydd o gyfarpar TG, rwy'n siŵr y deallwch fod angen cynnal ymchwiliadau pellach yn awr i bob agwedd ar ei ymddygiad a'r penderfyniadau a wnaed ganddo pan oedd yn ei swydd.

Rwy'n gwerthfawrogi bod pob un ohonom yn dal i geisio ymdopi â'r hyn sydd wedi digwydd dros yr ychydig ddyddiau diwethaf, felly efallai fod cyfathrebu yn y dull hwn ychydig yn ansensitif ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n angenrheidiol i ni gael sicrwydd llwyr, i'r graddau sy'n bosibl, nad oes unrhyw faterion pellach y mae angen mynd i'r afael â hwy - ac mae angen i ni wneud hyn cyn gynted â phosibl.

Mae hon yn broses bwysig, nid yn unig o ran ein diwydrwydd dyladwy ein hunain ac er mwyn cau pen ar y mwdwl, ond i ddangos i bawb y tu allan i'r sefydliad bod ein prosesau mewnol yn drylwyr ac yn effeithiol.

Bydd Patrick Spillane a minnau yn cynnal yr adolygiad ac yn trefnu cyfarfodydd gyda sawl un ohonoch yn ystod y dyddiau nesaf. Gobeithio y bydd pob un ohonoch yn ein helpu yn ystod y broses hon o gasglu gwybodaeth - nid erledigaeth yw hon, ond gweithgarwch angenrheidiol yn dilyn digwyddiad mor drist. Os gofynnir i chi helpu, byddwch mor hyblyg ag y gallwch drwy sicrhau y byddwch ar gael, gan fod angen i ni gwblhau'r gwaith mor gyflym ag y gallwn ni.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gallech gysylltu â ni, yn hollol gyfrinachol, os gallwch feddwl am unrhyw beth yn y gorffennol sydd wedi peri pryder i chi o bosibl ynghylch gonestrwydd, proses gwneud penderfyniadau, sylwadau neu gamau gweithredu Jeremy. Efallai nad ydych wedi teimlo eich bod wedi gallu codi'r materion hyn yn y gorffennol, ond byddem yn ddiolchgar pe gallech gysylltu â ni nawr.

## Cyflwyno adroddiad

x. Bydd y gwaith o gyflwyno adroddiad yn dibynnu ar ganlyniadau'r adolygiad. Rhoddir adborth drwy gydol yr adolygiad i'r Archwilydd Cyffredinol, aelodau'r Pwyllgor Gweithredol, a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Swyddfa Archwilio Cymru fel y bo'n briodol. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a swyddogion Comisiwn y Cynulliad wedi gofyn am gael eu hysbysu o ganlyniadau'r adolygiad, a gwneir hyn i'r graddau sy'n briodol ac yn iawn gwneud hynny. Yn dibynnu ar y canlyniadau, efallai y bydd angen cyfeirio materion pellach yn ymwneud ag ymddygiad Jeremy Colman yn ei swydd at yr heddlu. Darperir adroddiad ysgrifenedig neu gyflwyniad tystiolaethol ar ddiwedd

yr adolygiad i'r Pwyllgor Gweithredol a bydd yn cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r trefniadau llywodraethu. Caiff pob adroddiad a chyflwyniad Archwiliad Mewnol ei adolygu gan Bwyllgor Gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru, ac yna gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

## Amseru ac adnoddau

xi. Bwriedir cyflawni'r gwaith fel y nodir yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod sefydlu cychwynnol i gytuno ar gylch gorchwyl | Chwefror 2010 |
| Gwaith maes | Chwefror/Mawrth 2010 |
| Adroddiad/cyflwyniad drafft | Ebrill 2010 |
| Adroddiad/cyflwyniad terfynol | Ebrill 2010 |
| Adroddiad/cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | Medi 2010 |

## Personél y gwasanaeth Archwiliad Mewnol

xii. Mae croeso i unrhyw bersonél sy'n ymwneud â'r gwaith gysylltu â ni os oes ganddynt ymholiadau neu sylwadau. Y personél sy'n gysylltiedig â'r prosiect yw Simon Edge a Patrick Spillane.

## Rheoli Risg

xiii. Mae'r risgiau a'u mesurau lliniaru ar gyfer yr adolygiad hwn yn cynnwys:

a. Heriau o ran trylwyredd y broses adolygu, gan gynnwys dibynadwyedd a pherthnasedd y dystiolaeth a gasglwyd ac a ystyriwyd. Felly byddwn yn cadw llwybr archwilio llawn o'r prosesau a ddilynwyd, a chaiff pob cyfweliad ei gynnal ar sail gyson yn unol â'r cyfarwyddiadau a grybwyllir isod.

b. Safbwyntiau di-sail yn cael eu cofnodi fel tystiolaeth - ymdrinnir â hyn hefyd drwy'r cyfarwyddiadau a nodir isod.

c. Llygru tystiolaeth sy'n berthnasol i ymchwiliadau troseddol - hysbyswyd yr heddlu o'r adolygiad hwn ac nid ydynt wedi codi unrhyw bryderon; ar gyngor cyfreithwyr, caiff cyfweliadau eu hatal cyn gynted ag y codir tystiolaeth droseddol o bosibl a chaiff hyn ei ddwyn at sylw'r heddlu.

### Cyfarwyddiadau ar gyfer cyfweliadau

xiv. Y bobl i'w cyfweld yw'r rhai a nodwyd gan y tîm adolygu fel y rhai sy'n berthnasol i'r materion yn yr hierarchaeth cwestiynau. Mae'r rhestr yn cynnwys pob Partner Swyddfa Archwilio Cymru, staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cynnal gweithgareddau perthnasol a'r rhai sydd wedi gwirfoddoli gwybodaeth berthnasol, partneriaid cwmnïau a chontractwyr eraill sy'n gysylltiedig â gweithgarwch yr Archwilydd Cyffredinol.

xv. Ar ddechrau pob cyfweliad ymdrinnir â'r canlynol:

a. Caiff y cyfweliad ei atal cyn gynted ag y codir tystiolaeth droseddol o bosibl a chaiff hyn ei ddwyn at sylw'r heddlu.

b. Beth bynnag, gall rhai materion gael eu dwyn at sylw'r heddlu.

c. Cwmpas yr adolygiad yw ymdrin â'r cwestiynau a nodir yn y cylch gorchwyl hwn.

ch. Rhybudd o ganlyniadau a allai godi o ddarparu gwybodaeth heb gredu yn ei gwirionedd neu wybodaeth anwir.

d. Nid erledigaeth yw hon.

dd. Caiff nodyn ei hanfon ar ôl y cyfarfod yn crynhoi'r prif faterion a godwyd.

e. Mae cyfrinachedd yn amodol ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Ddeddf Diogelu Data a chyfyngiadau'r heddlu.

f. Gall gwybodaeth o'r cyfweliad hwn gael ei rhyddhau mewn ymateb i geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data.

ff. Canlyniad yr adolygiad fydd cyflwyniad o'r canfyddiadau/adroddiad i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

### Diogelu gwybodaeth

xvi. Caiff dogfennau eu cadw ar weinydd Swyddfa Archwilio Cymru yn y ffolder Archwiliad Mewnol.

## Rheoli gwrthdaro buddiannau

xvii. Simon Edge yw'r Partner sy'n gyfrifol am gontractau fframwaith a phenodiadau archwilio y cwmni. Mewn perthynas ag agweddau ar yr adolygiad hwn sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hynny bydd Patrick Spillane yn atebol i’r Archwilydd Cyffredinol. Nid oes unrhyw achos pellach o wrthdaro buddiannau wedi ei nodi ar gyfer yr adolygiad hwn, ond os bydd unrhyw achos yn codi ymdrinnir ag ef yn unigol.

## Cwmpas y gwaith

Roedd agweddau a gwmpaswyd fel rhan o'r adolygiad hwn yn cynnwys:

**Cyfweliadau**

26 aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru

Pedwar aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ôl eu cais hwy (a oedd wedi eu cynnwys yn y 26 aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru)

17 o enwau cyswllt allanol

**Negeseuon e-bost**

9,959 o negeseuon e-bost at Mr Colman ac oddi wrtho

**Treuliau**

Blwyddyn ariannol 2009-10 - adolygwyd holl dreuliau Mr Colman

Blwyddyn ariannol 2008-09 - adolygwyd sampl o dreuliau Mr Colman

Blwyddyn ariannol 2007-08 - adolygwyd sampl o dreuliau Mr Colman

Blwyddyn ariannol 2006-07 - adolygwyd sampl o dreuliau Mr Colman

Blwyddyn ariannol 2005-06 - adolygwyd sampl o dreuliau Mr Colman

**Cyfriflenni cardiau prynu Swyddfa Archwilio Cymru**

Blwyddyn ariannol 2009-10 - adolygwyd holl dreuliau Mr Colman

Blwyddyn ariannol 2008-09 - adolygwyd sampl o dreuliau Mr Colman

**Taliadau gwesty**

Blwyddyn ariannol 2009-10 - adolygwyd sampl o daliadau gwesty Mr Colman a'u croes-gyfeirio at dreuliau a chyfriflenni cardiau prynu

Blwyddyn ariannol 2008-09 - adolygwyd sampl o daliadau gwesty Mr Colman a'u croes-gyfeirio at dreuliau a chyfriflenni cardiau prynu

**Contractau**

Chwe chontract yr oedd Mr Colman wedi ymwneud â hwy yn uniongyrchol/anuniongyrchol rhwng 2007 a 2010.

Atodiad 2

# Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Jeremy Colman Ysw
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
Tŷ Deri
2-4 Park Grove
CAERDYDD CFI0 3PA

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Archwilio
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Chwefror 2008

Annwyl Jeremy,

**MEMORANDWM AR GYFER SWYDDOG CYFRIFYDDU SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Ysgrifennodd Janet Davies, fy rhagflaenydd, atoch ar 25 Ebrill 2005 mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu ar ran Swyddfa Archwilio Cymru.

Gwnaeth y memorandwm a gafodd ei amgáu gyda'r llythyr hwnnw gyfeiriad at rannau amrywiol o Ddeddf Llywodraeth Leol 1998 sydd bellach wedi ei diddymu a'i disodli gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006. Mae'r memorandwm sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn, sy'n disodli'r memorandwm cynharach, a hynny ar unwaith, yn adlewyrchu'r sefyllfa statudol gyfredol. Fel y cytunwyd â'ch swyddfa, mae hefyd yn ymgorffori paragraff newydd yn ymwneud â threfniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru gan gynnwys gofyniad am gyfraniad allanol annibynnol ac, mewn amgylchiadau eithriadol, at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Rwy'n anfon copïau o'r llythyr hwn at y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, Swyddog Cyfrifon y Trysorlys, Clerc Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad a Chlerc Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

Yn gywir

**David Melding AC**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

## Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru

### Cyflwyniad

1. Mae a wnelo'r Memorandwm hwn â chyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru.
2. Mae eich penodiad, yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn adlewyrchu'r ffaith bod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol ac am ei gweithdrefnau mewn perthynas â materion ariannol a materion eraill.
3. Rhaid i chi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn Swyddfa Archwilio Cymru a bod ei systemau a'i gweithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol. Hefyd rhaid i chi sicrhau yr ystyrir ystyriaethau ariannol yn llawn mewn penderfyniadau ar gynigion sy'n ymwneud ag ymarfer swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol a rheoli Swyddfa Archwilio Cymru.
4. Dylech sefydlu trefniadau priodol, gan gynnwys cyfraniad allanol annibynnol, i roi sylwadau a chyngor yn ffurfiol i chi ar ansawdd a gweithrediad y trefniadau llywodraethu yn Swyddfa Archwilio Cymru, yn arbennig o ran materion risg a rheoli, ac ar faterion yn ymwneud â'ch ymddygiad chi ac ymddygiad eich uwch aelodau o staff. Dylai'r trefniadau hyn, mewn amgylchiadau eithriadol, gynnwys cymeradwyaeth ar gyfer cyflwyno adroddiad uniongyrchol ar eich penderfyniadau a'ch ymddygiad i Gadeirydd Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
5. Mae gennych gyfrifoldeb dros lofnodi'r cyfrifon yn bersonol sy'n ofynnol yn ôl Paragraff 13 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006 ac, yn rhinwedd y ddyletswydd honno, y cyfrifoldeb pellach o fod yn dyst gerbron Pwyllgor Archwilio y Cynulliad neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, i ddelio â chwestiynau sy'n codi o'r cyfrifon hynny neu o adroddiadau a wnaed i'r Cynulliad gan eich archwilydd allanol neu i'r Senedd gan y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol. Yn gysylltiedig â'r cyfrifoldebau hyn mae'r cyfrifoldebau pellach sy'n destun y Memorandwm hwn.

### Cyfrifoldebau cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru

6. Mae eich penodiad fel Archwilydd Cyffredinol Cymru ac felly Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru yn adlewyrchu'r ffaith bod gennych gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio'r Swyddfa honno yn gyffredinol, a'i gweithdrefnau, lle bo'r rheini yn briodol, mewn materion ariannol a materion eraill. Rhaid i chi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn y Swyddfa Archwilio gyfan; bod systemau a gweithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol; a bod ystyriaethau ariannol yn cael eu hystyried yn llawn mewn penderfyniadau ar gynigion polisi.

**Cyfrifoldebau penodol y Swyddog Cyfrifyddu**

7. Hanfod rôl Swyddog Cyfrifyddu yw cyfrifoldeb personol am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus y mae ef neu hi yn atebol amdano: am gadw cyfrifon cywir; am weinyddu mewn modd pwyllog a darbodus; am osgoi gwastraff ac afradlondeb; ac am ddefnydd effeithlon ac effeithiol o'r holl adnoddau sydd ar gael.
8. Fel Swyddog Cyfrifyddu mae'n rhaid i chi:
   a. lofnodi'r cyfrifon sy'n ofynnol o dan Baragraff 13 o Atodlen 13 i Ddeddf 2006 ac, wrth wneud hynny, dderbyn y cyfrifoldeb personol am eu cyflwyno'n briodol fel y rhagnodir mewn deddfwriaeth neu gan y Trysorlys;
   b. sicrhau y dilynir gweithdrefnau ariannol priodol ac y cedwir cofnodion cyfrifyddu ar ffurf sy'n addas i ofynion rheolwyr yn ogystal ag ar y ffurf a ragnodir ar gyfer cyfrifon cyhoeddedig;
   c. sicrhau y caiff y cyllid cyhoeddus yr ydych yn gyfrifol amdano ei reoli a'i ddiogelu'n briodol ac yn dda, a sicrhau y cynhelir gwiriadau annibynnol ac effeithiol o falansau arian parod sydd yn nwylo unrhyw swyddog;
   d. sicrhau bod yr asedau rydych yn gyfrifol amdanynt megis tir, adeiladau neu eiddo arall, gan gynnwys storfeydd a chyfarpar, yn cael eu rheoli a'u diogelu gyda gofal tebyg, a bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal;
   e. sicrhau, wrth ystyried cynigion yn ymwneud â'r gwariant neu'r incwm rydych yn gyfrifol amdano, bod yr holl ystyriaethau ariannol perthnasol yn cael eu hystyried, a bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i unrhyw faterion yn ymwneud â phriodoldeb neu reoleidd-dra;
   f. llofnodi’r datganiad ar reolaeth fewnol.
9. Dylech sicrhau y cynhelir system gadarn o reolaeth fewnol yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio mewnol gadarn, i ategu'r gwaith o gyflawni ei pholisïau, nodau a'i hamcanion; a dylech adolygu effeithiolrwydd y system honno yn rheolaidd. Dylech hefyd sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel yn y Swyddfa Archwilio y canlynol:
   a. barn glir o'u hamcanion, a'r modd o asesu a, lle y bo'n bosibl, fesur allbynnau neu berfformiad mewn perthynas â'r amcanion hynny;
   b. cyfrifoldebau penodol wedi'u pennu ar eu cyfer i wneud y defnydd gorau o adnoddau (y rhai a ddefnyddir drwy eu gorchmynion hwy eu hunain ac unrhyw rai y trefnir iddynt fod ar gael i sefydliadau neu unigolion y tu allan i'r Swyddfa Archwilio), gan gynnwys craffu'n feirniadol ar allbwn a gwerth am arian;
   c. y wybodaeth (yn arbennig ynghylch costau), yr hyfforddiant, a'r gallu i fanteisio ar gyngor arbenigol sydd eu hangen arnynt i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol.

**Gweithgareddau cydgysylltiedig**

10. Dylech sicrhau bod effaith gweithgareddau'r Swyddfa Archwilio ar eraill yn cael ei nodi'n briodol a, lle y bo'n briodol, yn cael ei hystyried.
11. Er enghraifft, efallai y bydd yr Archwilydd Cyffredinol am gyfrannu at weithgarwch cydgysylltiedig gan weithio gyda sefydliad arall na fyddai'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni amcanion yr Archwilydd Cyffredinol ei hun, er y byddai ei gyfraniad yn helpu i gyflawni amcanion y sefydliad arall. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i chi fod yn fodlon bod cyfranogiad yn cynrychioli gwerth da am arian o safbwynt Cronfa Gyfunol Cymru a'r Trysorlys yn gyffredinol a bod rheolaethau priodol ar waith i ddiogelu priodoldeb a sicrhau atebolrwydd priodol.
12. Gallech rannu cyfrifoldeb am wasanaeth cydgysylltiedig â Swyddog Cyfrifyddu arall neu gyfrifoldeb am gyrraedd targed sy'n dibynnu ar lwyddiant gwasanaethau ar wahân. Dylai'r llinellau cyfrifoldeb mewn pob achos o'r fath gael eu cynllunio i ategu'r ddarpariaeth effeithiol o wasanaethau a chael eu diffinio'n glir mewn ffordd sy'n cysoni cyfrifoldeb ac atebolrwydd, gan egluro priod gyfrifoldeb ac atebolrwydd pob Swyddog Cyfrifyddu. Fel arfer bydd nodi'r trefniadau hyn mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y sefydliadau dan sylw yn fuddiol.
13. Mewn rhai amgylchiadau, gallai gweithgarwch a gynigir gan yr Archwilydd Cyffredinol arwain at roi pwysau ychwanegol ar wariant rhaglen sefydliad arall. Dylech sicrhau y byddai unrhyw weithgarwch o'r fath yn darparu gwerth am arian ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru a'r Trysorlys yn gyffredinol a bod eich staff, wrth weithredu'r gweithgarwch, yr un mor ystyriol o sicrhau gwerth am arian â phe bai hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar Reoleidd-dra a phriodoldeb gwariant y Swyddfa Archwilio.
14. Mae gennych gyfrifoldeb penodol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Seneddol a'r Cynulliad wrth reoli gwariant.
    Gofyniad sylfaenol yw na ddylid ond defnyddio cyllid i'r graddau ac i'r dibenion a awdurdodir gan y Senedd a'r Cynulliad. Rhaid tynnu sylw'r Cynulliad at golledion neu daliadau arbennig, drwy nodiannu'r cyfrif blynyddol yn briodol. Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw wariant yr eir iddo neu daliadau a wneir o fewn cwmpas a swm cyllideb yr Archwilydd Cyffredinol fel yr awdurdodir gan y Cynulliad bob blwyddyn yn ôl Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125 i 126 o Ddeddf 2006. Rhaid i adnoddau cronnus (incwm) a gymhwysir at wariant o'r fath ddeillio o ddosbarthiadau o incwm a rhaid iddynt fod o fewn y terfynau a bennir yn y Cynnig Cyllidebol (heblaw am incwm a gedwir o dan ddarpariaethau Paragraff 9(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006).
15. Mae Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau bod cymeradwyaeth benodol y Trysorlys ar gyfer gwariant wedi ei sicrhau mewn unrhyw achosion lle mae ei hangen o hyd. Rydych hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod peirianwaith digonol ar waith ar gyfer casglu a dwyn i gyfrif ar ffurf ddyledus yr holl incwm a derbyniadau o unrhyw fath sy'n gysylltiedig â chyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol.

### Ymddangos gerbron y Pwyllgor Archwilio neu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

16. Gall eich archwilwyr allanol a'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi defnyddio ei hadnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau. Efallai y gofynnir i'r Swyddog Cyfrifyddu ymddangos gerbron un o'r Pwyllgorau o bryd i'w gilydd i roi tystiolaeth ar yr adroddiadau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn, ac i ateb cwestiynau y naill Bwyllgor neu'r llall ar gyfrifon a sefyllfa ariannol Swyddfa Archwilio Cymru. Gall Swyddog Cyfrifyddu gael ei gefnogi gan swyddogion eraill a all ymuno i roi'r dystiolaeth.
17. Wrth roi tystiolaeth, bydd disgwyl i Swyddog Cyfrifyddu roi esboniadau i'r Pwyllgor Archwilio neu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch unrhyw arwyddion o wendidau y tynnwyd eu sylw atynt gan yr archwilydd allanol neu gan y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol neu esboniadau y byddant am holi'r Swyddog Cyfrifyddu yn eu cylch o bosibl.
18. Yn ymarferol, bydd Swyddog Cyfrifyddu wedi dirprwyo awdurdod yn helaeth, ond ni all am y rheswm hwnnw wadu pob cyfrifoldeb. Ac nid yw'r Swyddog Cyfrifyddu presennol, yn ôl confensiwn, yn gwrthod ateb cwestiynau lle y digwyddodd rhywbeth cyn iddo ymgymryd â'i swydd; gellir disgwyl i'r Pwyllgorau beidio â dal y Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol yn bersonol am unrhyw amgylchiadau o'r fath.
19. Rhoddir pwys mawr ar gywirdeb tystiolaeth, a chyfrifoldeb tystion i sicrhau hyn. Dylech sicrhau eich bod yn cael eich briffio'n ddigonol ac yn gywir ar faterion sy'n debygol o godi yn y cyfarfod. Efallai y gofynnir i'r Pwyllgorau am ganiatâd i ddarparu gwybodaeth nad yw ar gael i chi'n uniongyrchol drwy gyfrwng nodyn diweddarach. Os canfyddir wedi hynny bod y dystiolaeth yn cynnwys gwallau, dylid hysbysu'r Pwyllgor perthnasol o hyn cyn gynted â phosibl. Yn gyffredinol, mae'r rheolau a'r confensiynau sy'n rheoli ymddangosiadau swyddogion gerbron Pwyllgorau Seneddol yn gymwys i'r Pwyllgor Archwilio.

### Absenoldeb Swyddog Cyfrifyddu

20. Dylai Swyddog Cyfrifyddu sicrhau ei fod ef/ei bod hi ar gael yn gyffredinol ar gyfer gwaith ymgynghori, ac mewn unrhyw gyfnod dros dro pan na fydd ar gael oherwydd salwch neu reswm arall, neu yn ystod cyfnodau arferol o wyliau blynyddol, y bydd un o uwch swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru ar gael a all weithredu ar ei ran ef neu ei rhan hi os bydd angen.
21. Os daw'n amlwg na all Swyddog Cyfrifyddu gyflawni'r cyfrifoldebau hyn dros gyfnod o bedair wythnos neu fwy, dylid hysbysu'r Pwyllgor Archwilio fel y gellir penodi Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro yn ffurfiol, nes ei fod ef neu ei bod hi wedi dychwelyd. Mae'r un peth yn wir os bydd y Swyddog Cyfrifyddu, mewn sefyllfa eithriadol, yn bwriadu bod yn absennol am fwy na phedair wythnos ac na fydd yn bosibl cysylltu ag ef/hi yn ystod y cyfnod hwnnw.

22. Gellir disgwyl i'r Pwyllgor Archwilio neu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ohirio gwrandawiad os na fydd y Swyddog Cyfrifyddu perthnasol ar gael dros dro. Os na fydd y Swyddog Cyfrifyddu, oherwydd analluogrwydd neu absenoldeb, yn gallu llofnodi'r cyfrifon mewn pryd i'w cyflwyno i'r archwilydd allanol, gall Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno copïau heb eu llofnodi nes ei fod ef neu ei bod hi wedi dychwelyd. Os na fydd y Swyddog Cyfrifyddu yn gallu llofnodi'r cyfrifon mewn pryd i'w hargraffu, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro eu llofnodi.

**David Melding**

**dros ac ar ran Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Chwefror 2008**

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk